This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

CO19116 Kimberley Road / Heol Blenheim (Gwelliannau i'r Gyffordd)

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Gorffennaf 2021

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i gyflwyno mesurau arafu traffig o amgylch cyffordd Kimberley Road a Heol Blenheim yn Ward Pen-y-lan. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30/04/2021 a 21/05/2021.

Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgynghoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cafwyd 10 o ymatebion unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ac mae dadansoddiad o'r ymatebion hyn fel a ganlyn:

8: Cefnogaeth, a chefnogaeth gydag awgrymiadau ychwanegol

1: Aneglur, gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol

1: Yn erbyn, ond mynegwyd cefnogaeth i rai elfennau

Sylwadau Cefnogol

Croesawodd nifer o drigolion y newidiadau arfaethedig, gan ddweud y bu nifer o wrthdrawiadau yn y lleoliad hwn oherwydd cyflymder cerbydau a bydd hyn yn gwella diogelwch o amgylch y gyffordd hon yn sylweddol.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig diwygiedig fel y dangosir ar y cynllun amgaeedig.

Materion Penodol

Mae materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod gydag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

Mater	Ymateb
Gofynnodd trigolyn a ellid addasu'r gyffordd fel bod blaenoriaeth i gerddwyr wrth y gyffordd fel ei bod yn amlwg bod yn rhaid i geir ildio i gerddwyr.	Mae'r gyffordd yn cael ei dyrchafu, gyda mannau croesi anffurfiol i gerddwyr yn cael eu nodi â phalmentydd botymog. Bydd yn rhaid i gerddwyr wirio ei bod yn ddiogel croesi'r ffordd. Wrth groesi'r ffordd wrth gyffordd, os yw cerddwyr wedi dechrau croesi a bod traffig am droi i mewn i'r ffordd, mae gan gerddwyr flaenoriaeth (Rheol 170 Rheolau'r Ffordd Fawr).
Cafwyd nifer o sylwadau yn nodi er y byddai'r mesurau hyn yn lleihau cyflymderau o amgylch y gyffordd fod angen mesur arafu traffig ychwanegol ar Heol Blenheim a Kimberley Road.	Fel Awdurdod, nid ydym yn gweithredu cynlluniau arafu traffig ar draws yr ardal mwyach, yn enwedig gan y gall mesurau arafu traffig fod yn niwsans i yrwyr sy'n cadw at y gyfraith, neu achosi llygredd sŵn i eiddo cyfagos. O ganlyniad, bydd unrhyw fesurau arafu traffig a gyflwynir gennym yn canolbwyntio ar wella diogelwch wrth gyffyrdd neu wrth groesfannau i gerddwyr.
Mynegwyd pryderon nad yw gyrwyr ar Kimberley Road yn sylweddoli nad oes ganddynt flaenoriaeth wrth y gyffordd ac felly dylid cyflwyno signalau traffig wrth y gyffordd.	Ni fyddai llifau'r cerbydau yn y lleoliad hwn yn cyfiawnhau cyflwyno signalau traffig. Gan y bydd y gyffordd yn un ddyrchafedig nawr bydd yn rhaid i yrwyr leihau eu cyflymder wrth iddynt nesáu at y gyffordd. Bydd arwyddion a marciau ffordd ildio hefyd yn rhoi gwybod i yrwyr yn glir bod angen iddynt ildio wrth y gyffordd.
Mynegodd nifer o drigolion bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o golli mannau parcio'n rhan o'r cynllun.	Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig lleihau hyd y rhwystrau ymwthiol arfaethedig. Bydd hyn yn lleihau swm y mannau parcio a gollir dan y cynllun hwn (*gweler y cynllun atodedig*). Bydd y rhwystrau ymwthiol hyn yn ymestyn 10 metr ar y mwyaf o'r gyffordd sydd yn unol â Rheol 243 Rheolau'r Ffordd Fawr sy'n nodi: *PEIDIWCH â Stopio na Pharcio gyferbyn â chyffordd neu o fewn 10 metr (32 troedfedd) i gyffordd*, ac eithrio mewn man parcio awdurdodedig
Gofynnwyd pa ddarpariaeth wefru cerbydau trydan fyddai'n cael ei rhoi ar waith yn yr ardal.	Nid yw cyflwyno mannau gwefru cerbydau trydan yn rhan o gylch gwaith y tîm hwn ac nid yw ychwaith yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, os oes gan drigolion bryderon am fannau gwefru cerbydau trydan gallant e-bostio gwefruCT@caerdydd.gov.uk.gov.uk a throsglwyddir eich pryderon i'r tîm perthnasol. Mae mwy o wybodaeth am fannau gwefru cerbydau trydan ar wefan Cyngor Caerdydd.
Mynegwyd pryderon ynghylch sut y byddai system Tramiau Caerdydd yn effeithio ar drigolion pe bai'n cael sêl bendith.	Nid yw System Tramiau Caerdydd yn rhan o gylch gwaith y tîm hwn ac nid yw ychwaith yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, os oes gan drigolion bryderon am unrhyw system tramiau yn y dyfodol gallant e-bostio GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk a throsglwyddir eich pryderon i'r tîm perthnasol.
Gofynnodd trigolyn beth oedd cost y cynnig gan ei fod yn teimlo y gellid gwario'r arian yn well ar osod wynebau newydd a thrwsio tyllau yn yr ardal.	Rydym wedi cael £130k o Arian Teithio Llesol Llywodraeth Cymru i gyflawni'r cynllun hwn. Nid yw'n bosibl i ni ddefnyddio'r arian hwn i wneud gwaith cynnal a chadw.

Mynegwyd pryderon bod cerbydau'n parcio'n agos at y gyffordd ac yn rhwystro gweledegd wrth y gyffordd, felly dylid cyflwyno cyfyngiadau parcio wrth y gyffordd.	Ar ôl gweithredu'r cynllun hwn, caiff gwaith monitro ei wneud i nodi a oes angen cyflwyno llinellau melyn dwbl wrth y gyffordd. Os bydd angen llinellau melyn dwbl yna bydd angen proses ymgynghori ar wahân ar gyfer Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.
Dywedodd un sylw y dylai'r marciau ildio wrth y gyffordd gael eu disodli gan arwyddion stop a llinellau stop fel bod gyrwyr yn cael eu gorfodi i stopio wrth y gyffordd.	Nid yw'r gweledegd sydd ar gael wrth y gyffordd yn llai na'r meini prawf gweledegd* ac nid yw felly'n cyfiawnhau defnyddio arwyddion STOP. Mae defnyddio arwyddion Stop wrth y gyffordd hon yn debygol o arwain at ddiffyg cydymffurfio gan yrwyr, oherwydd y gweledegd sydd ar gael a gallai hefyd danseilio hygredegd arwyddion Stop sydd mewn lleoliadau eraill. Gan y bydd y gyffordd yn un ddyrchafedig nawr bydd yn rhaid i yrwyr leihau eu cyflymder wrth iddynt nesáu at y gyffordd. Bydd arwyddion a marciau ffordd ildio hefyd yn rhoi gwybod i yrwyr yn glir bod angen iddynt ildio wrth y gyffordd. *(*Llawlyfr Arwyddion Traffig – Pennod 3 – Arwyddion Rheoliadol)*
Gwnaed cais i osod camera cyflymder.	Gweithredir camerâu cyflymder gan Bartneriaeth Lleihau Anafiadau Cymru (sef GanBwyll www.gosafe.org) ac fe'u darperir fel y nodir yn y ddogfen Meini Prawf Safleoedd* a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Llywodraeth Cymru. Dim ond mewn un o dri amgylchiad y gellir defnyddio camerâu: lle mae pobl wedi cael eu lladd neu eu hanafu; mewn safleoedd sy'n peri pryder i'r gymuned ac mae arolwg yn cadarnhau bod problem wirioneddol o ran goryrru; ac fel rhan o weithrediadau arbennig, megis gwaith ffordd ac ymgyrchoedd addysgol. *https://gosafe.org/calibration-certifcates/where-we-place-cameras/?lang=cy

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau arfaethedig i'r briffordd, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD



Following the recent consultation on proposed changes to the highway, the Council is preparing to implement the scheme based on the revised plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD